OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 783 (Cy.80)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*16 Mawrth 2004*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 77(2) a (4), 80(4), 83(9) a 84(5) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Medi 2004.

(2) Maent yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 2 rhowch y canlynol —

"**2.** Mae arolygiadau i'w cynnal —

(a) o fewn chwe mlynedd o'r arolygiad diwethaf, neu

(b) os nad oes arolygiad wedi bod, o fewn chwe mlynedd o ba un bynnag yw'r cynharaf o'r canlynol —

(i) dyddiad unrhyw asesiad neu arolygiad a gyflawnwyd o dan adran 9(4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**3**);

(ii) dyddiad sefydlu sefydliad sy'n darparu'r addysg a hyfforddiant sydd i gael eu harolygu; neu

(iii) 1 Medi 2004,

ac yna o fewn pob cyfnod o chwe mlynedd o'r arolygiad diwethaf.".

(3) Yn rheoliad 3 —

(**1**) 2000 p.21. I gael ystyr "prescribed" yn adran 77 *gweler* is-adran (9) o'r adran honno.
(**2**) O.S. 2001/2501 (Cy. 204).
(**3**) 1992 p.13.